**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Papur 4

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Mai 2023

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y Memorandwm).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 1 Mehefin 2023.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

Cwestiwn 2: Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fyddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.